Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd ar-lein trwy gyfrwng Zoom nos Lun, **10 Mai 2021** am **7.00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Gavin Harris (**Maer**), Cynghorydd Heather Williams **(Dirprwy Faer**) a'r Cynghorwyr Stephen Beach, Jim Bryan, Christine Ellis, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ethan Jones, Menna Jones, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Mike van der Eijk ac Ifan Wyn.
Ynghyd â'r Cynghorwyr Sir Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Emrys Wynne.

1. GWEDDI AGORIADOL
Agorodd y Parchedig Stuart Evans y cyfarfod gyda gweddi.

2. CROESO AC YMDDIHEURIADAU
Croesawodd y Maer wahoddedigion dinesig, Cynghorwyr a'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol. Esboniodd ei fod ef, y Dirprwy Faer a'i chonsort, y darpar Ddirprwy Faer a'i chonstor a'r Clerc yn yr Hen Lys, yn cadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol, a chroesawodd bawb arall a oedd yn rhan o'r cyfarfod trwy Zoom. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. ANERCHIAD Y MAER
Cyfeiriodd y Maer, y Cynghorydd Gavin Harris, at ei gyfnod estynedig fel Maer oherwydd pandemig a chyfyngiadau Covid-19. Cyfeiriodd at brosiectau yn Rhuthun ac ymateb y gymuned yn ystod y cyfnod clo. Yna diolchodd i'r rhai a ddaeth i Ginio Elusennol y Maer, a oedd wedi cyfrannu tuag at godi £4,500. Byddai cyfraniad o £500 yr un yn mynd i Parkinsons UK, Cymdeithas y Deillion, Yr Hen Lys, Dyfodol Rhuthun a phrosiect Felodrom Gogledd Cymru gyda Neuadd y Farchnad, Carchar Rhuthun, Canolfan Grefft Rhuthun, Nantclwyd y Dre, Ysgol Brynhyfryd, Ysgol Borthyn, Ysgol Pen Barras ac Ysgol Stryd y Rhos i gael £250 yr un. Mynegodd ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Heather Williams fel y Maer newydd a'r Cynghorydd Menna Jones fel y Dirprwy Faer newydd.

4. GWOBR DINESYDD DA, PERSON IFANC A GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN
Llongyfarchodd y Maer y rhai a enillodd y Gwobrau yn 2020 fel a ganlyn – Mr Mahmut Aydin fel Dinesydd Da'r Flwyddyn am ei gyfraniad i'r gymuned yn dilyn marwolaeth drasig Olivia Alkir, Celi Griffiths ac Ifan Gwyn fel Person Ifanc y Flwyddyn am eu hymdrechion gwirfoddoli yn y gymuned a Phwyllgor Gŵyl Rhuthun fel Grŵp Cymunedol y Flwyddyn am drefnu digwyddiaau Gŵyl Rhuthun. Byddai'n cyflwyno eu tystysgrifau iddynt ac yn gwneud trefniadau i rodd o £100 fynd i'r achos da o'u dewis.

5. CYFLWYNO GWOBR QUAYLE
Dangoswyd plac Gwobr Quayle 2019. Fe'i cyflwynwyd i'r Maer gan Gadeirydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn gynharach yn y diwrnod. Cyflwynwyd y wobr i brosiect yr Hen Lys Cyngor Tref Rhuthun fel prosiect o fudd cyhoeddus yn dilyn adnewyddu'r adeilad hanesyddol gan sicrhau ei gadwraeth a'i ddefnydd yn y dyfodol.

6. DIOLCHIADAU I'R MAER
Diolchodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Heather Williams, i'r Maer, y Cynghorydd Gavin Harris, am ei waith caled a'i ymrwymiad i'r dref. Cyfrannodd yn arwyddocaol i brosiect yr Hen Lys a phrosiect Felodrom Gogledd Cymru gydag angerdd a brwdfrydedd a threfnodd ddefnyddio technoleg digidol ar gyfer ailddechrau cynnal cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyfyngiadau am gyfarfod. Cyflwyno Blac y Dref iddo ar ran y Cyngor Tref.

7. COFNOD O BRESENOLDEB YR AELODAU

Anfonwyd manylion presenoldeb yr aelodau yn ystod 2020-21 at yr aelodau cyn y cyfarfod.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GYMRAEG

Nid oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod ers y Cyfarfod Blynyddol blaenorol ym mis Rhagfyr 2020, ond bwriedir cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn 2021.

9. ETHOL MAER AR GYFER 2021/2022

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Anne Roberts, wedi ei eilio gan y Cynghorydd Robert Owen-Ellis, penderfynwyd yn unfrydol ethol y Cynghorydd Heather Williams yn Faer Rhuthun am y flwyddyn ddinesig 2021/2022. Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod y Cynghorydd Williams wedi bod yn weithgar yn y dref ers symud i Rhuthun yn 1998. Fel aelod a Chadeirydd Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch sefydlodd y penwythnosau Drysau Agored a gweithiodd gydag eraill i sefydlu Nantclwyd y Dre fel atyniad ymwelwyr. Yn fwy diweddar sicrhaodd statws Rhuthun fel tref sy'n Croesawu Bysiau Moethus. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill a phenderfynwyd yn unfrydol ethol y Cynghorydd Heather Williams yn Faer Tref Rhuthun am y flwyddyn ddinesig 2021/22 a chafodd ei harwisgo gyda Chlogyn a Chadwyn y Swydd a derbyniodd ei chonsort, Mr Robert Williams, gadwyn y Consort.

10. DATGANIAD DERBYN Y SWYDD GAN Y MAER

Wedi datgan a llofnodi'r datganiad angenrheidiol, diolchodd y Cynghorydd Geraint Woolford i'w gynigydd a'i eilydd. Dywedodd y byddai'n gwneud ei orau glas i hybu'r economi leol a'i fod yn bwriadu ymweld â phob busnes yn Rhuthun yn ystod ei fis cyntaf yn y swydd. Cyhoeddodd mai Ambiwlans Awyr Cymru fyddai ei elusen.

10. ETHOL DIRPRWY FAER AR GYFER 2016/2017

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Stephen Beach, wedi ei eilio gan y Cynghorydd Ifan Wyn, penderfynwyd yn unfrydol ethol y Cynghorydd Menna Jones yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig 2021/2022. Yna gwigodd y Cynghorydd Jones Gadwyn y Dirprwy Faer.

12. GWEDDI I GLOI

Cafwyd gweddi i goi gan Gaplan y Maer, y Parchedig Stuart Evans.